Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Ein syniadau ar gyfer Ardaloedd Pleidleisio newydd y Senedd yng Nghymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad 2026 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru Adolygiad o etholaethau'r Senedd Cynigion cychwynnol**'.

**Awst 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Ffôn:** 029 2046 4819

**Ebost:** ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

**Gwefan:** www.cdffc.llyw.cymru

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynwnys

Amdanom ni ........ 5

Beth roedd rhaid i ni feddwl amdano........ 10

1. Bangor Aberconwy Ynys Môn ........ 14

2. Clwyd ........ 15

3. Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (Alyn, Deeside and Wrexham) 16

4. Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr) ........ 17

5. Ceredigion a Sir Benfro (Ceredigion and Pembrokeshire) ........ 18

6. Sir Gaerfyrddin (Carmarthenshire) ........ 19

7. Gorllewin Abertawe a Gŵyr (Swansea West and Gower)........ 20

8. Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (Brecon, Radnor, Neath and Swansea East) ........ 21

9. Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr (Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore) ........ 23

10. Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd (Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd) ........ 25

# Cynnwys

**11. Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerfilli (Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly) ........ 26**

**12. Sir Fynwy a Thorfaen (Monmouthshire and Torfaen) ........ 27**

**13. Casnewydd ac Islwyn (Newport and Islwyn) ........ 28**

**14. Dwyrain a Gogledd Caerdydd (Cardiff East and North) ........ 29**

**15. Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth (Cardiff West, South and Penarth) ........ 30**

**16. Bro Morgannwg a Phen-y-bont (Vale of Glamorgan and Bridgend) ........ 31**

# Amdanom ni

Ni ydy **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**. Rydyn ni yn **grŵp annibynnol**.



Mae hyn yn meddwl nad ydyn ni yn cael ein rheoli gan y llywodraeth. Mae'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud yn seiliedig ar beth rydyn ni'n meddwl sydd orau.



Ein gwaith ni ydy edrych ar ardaloedd pleidleisio'r Senedd yng Nghymru. Mae'r rhain hefyd yn cael eu galw yn **etholaethau**.



**Senedd Cymru** ydy'r **Senedd**. Dyma lle mae cyfreithiau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud am Gymru.




Mae pobl Cymru yn pleidleisio dros bwy maen nhw am eu cynrychioli nhw a'u hardal yn y **Senedd**.




Mae'r **etholaethau** (ardaloedd pleidleisio) wedi cael eu gosod gan ddeddf o'r enw **Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024**.



Fe fyddwn ni yn galw hyn yn **y Ddeddf** yn y canllaw yma.





Mae'n rhaid i ni adolygu ac ysgrifennu adroddiad am yr etholaethau erbyn mis Ebrill 2025. Fe fydd llawer o newidiadau. Rydyn ni yn galw hwn yn **Arolwg 2026**.




Efallai y byddwch chi eisiau darllen y canllaw rydyn  ni wedi ei wneud ym mis Gorffennaf o'r enw Adolygu Ardaloedd Pleidleisio'r Senedd Cymru. Canllaw hawdd ei ddeall i'r adolygiad.



Fe fydd hyn yn helpu i esbonio beth sy'n digwydd a pham.




Mae’r ddogfen yma am ein syniadau ar gyfer **16 etholaeth newydd yn y Senedd**.




Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am y newidiadau rydyn ni yn eu hawgrymu.



Darllenwch y ddogfen yma a dywedwch wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl.



Rydych chi’n gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl drwy anfon e-bost at: [ymgynghoriadau@cdffc.llyw.cymru](mailto:ymgynghoriadau@cdffc.llyw.cymru)



Trwy ysgrifennu atom yn:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru,

Parc Cathays,

Caerdydd,

CF10 3NQ




Neu drwy fynd i’n gwefan yma:
[https://senedd2026.arolygoncymru.cymru/](https://senedd2026.arolygoncymru.cymru/)




Rydych chi’n gallu dweud beth rydych chi’n feddwl rhwng **3 Medi a 30 Medi 2024**.




Wrth ddweud wrthyn  ni beth rydych chi’n feddwl, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud pa **etholaeth** rydych chi yn sôn amdani.



Dywedwch wrthyn ni os ydych chi’n anghytuno â rhywbeth neu’n cytuno â rhywbeth.



Os ydych chi'n anghytuno â rhywbeth, dywedwch wrthyn ni beth ddylai gael ei wneud yn eich barn chi.



Cofiwch mai **etholaethau Senedd** yn unig ydy'r rhain. Dydyn nhw ddim am unrhyw etholaethau eraill na newidiadau i unrhyw wasanaethau.




Fe fyddwn ni yn cyhoeddi beth mae pobl yn ei ddweud. Ond  fyddwn ni ddim yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol.

# Beth roedd rhaid i ni feddwl amdano




Mae'r Ddeddf yn dweud bod  rhaid i ni wneud **16 o etholaethau'r Senedd**. Ar hyn o bryd mae 40.




Rydyn ni yn mynd i wneud hyn drwy ymuno â **32 etholaeth seneddol y DU**.



Mae **etholaethau Senedd y DU** yn cael eu defnyddio ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol.



Mae etholaethau'r **Senedd** ar gyfer pleidleisio dros **Senedd Cymru** a'r pethau mae Cymru'n eu rheoli.




Mae'n rhaid i'r ardaloedd sydd yn uno fod wrth ymyl ei gilydd.

Mae angen i ni feddwl am bethau fel:




- Ffiniau cynghorau lleol.



- Maint a siâp ardal. Pa mor hawdd ydy teithio o gwmpas. Er enghraifft, mae mynyddoedd neu afonydd yn gallu effeithio ar fynd o gwmpas.



- Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newidiadau. Dydyn ni ddim am wahanu cymunedau lleol lle mae hynny'n bosibl.





Mae angen i ni hefyd awgrymu enwau ar gyfer yr **16 etholaeth**. Fe fydd y rhain fel arfer yn Gymraeg ac yn Saesneg.




Rydyn ni yn croesawu beth mae pobl yn feddwl am enwau eraill.

Dyma fap o **Etholaethau Seneddol y DU:**



Dyma fap o’n syniadau ar gyfer **16 etholaeth newydd y Senedd.**



# 1. Bangor Aberconwy Ynys Môn

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:



1. Etholaeth Seneddol Bangor Aberconwy y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Ynys Môn y DU.



Rydyn ni yn credu y byddai hyn yn gwneud etholaeth dda iawn. Oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth da.




Rydyn  ni'n credu y dylid galw'r etholaeth hon yn **Bangor Aberconwy Ynys Môn.** Mae hyn yn gweithio'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# 2. Clwyd

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:




1. Etholaeth Seneddol Dwyrain Clwyd y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Gogledd Clwyd y DU.



Rydyn ni yn credu bod gan yr ardaloedd yma gysylltiadau da.




Rydyn ni'n credu fod Clwyd yn enw da i'r etholaeth yma. Oherwydd eu bod yn 2 ardal o Glwyd a fyddai'n cael eu huno.

# 3. Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (Alyn, Deeside and Wrexham)




Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:

1. Etholaeth Seneddol y DU Alun a Glannau Dyfrdwy,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Wrecsam y DU.



Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau trafnidiaeth yn cysylltu'n dda â'r ardaloedd yma.




Credwn fod yr enw yn cynrychioli'r etholaeth. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn meddwl y dylem ddefnyddio 1 sillafiad o Alun ar gyfer Cymraeg a Saesneg.

# 4. Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:



1. Etholaeth Seneddol Dwyfor Meirionnydd y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Sir Drefaldwyn a Glyndŵr y DU.



Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng yr ardaloedd yma.



Rydyn ni yn credu bod yr ardal yn fawr, ond dyma'r opsiwn gorau o hyd. Mae angen i ni uno 2 ardal seneddol.



Fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg gytuno â'r enw yma.

# 5. Ceredigion a Sir Benfro (Ceredigion and Pembrokeshire)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:




1. Etholaeth Seneddol Ceredigion Preseli y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Canolbarth a De Sir Benfro y DU.



Fe fyddai Ceredigion a Sir Benfro yn cael eu huno i wneud 1 etholaeth.




Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau ffyrdd rhwng yr ardaloedd yma yn dda.




Rydyn ni yn credu bod angen i ni ddefnyddio enwau Cymraeg a Saesneg.

# 6. Sir Gaerfyrddin (Carmarthenshire)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:




1. Etholaeth Seneddol Caerfyrddin y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Llanelli y DU.




Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau ffyrdd da a chysylltiadau eraill rhwng yr ardaloedd yma.




Rydyn  nj yn credu fod cael enw Saesneg ac enw Cymraeg yn gweithio'n dda.

# 7. Gorllewin Abertawe a Gŵyr (Swansea West and Gower)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:




1. Etholaeth Seneddol Gŵyr y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Gorllewin Abertawe y DU.



Mae cysylltiadau ffyrdd da a chysylltiadau eraill rhwng y ddwy ardal yma.




Fe fyddai Clydach yn cael ei rannu ac yn rhan o 2 etholaeth ar wahân. Mae hyn yn cyfateb i newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r ardal bleidleisio yma yn 2021.




Rydyn ni yn credu bod angen enw Cymraeg ac enw Saesneg.

# 8. Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (Brecon, Radnor, Neath and Swansea East)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:




1. Etholaeth Seneddol Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Castell-nedd a Dwyrain Abertawe y DU.



Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng yr ardaloedd yma.



Fe fyddai rhan o Glydach hefyd yn dod yn rhan o'r etholaeth yma. Mae hyn yn cyfateb i newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r ardal bleidleisio yma yn 2021.




Fe fydd ardaloedd Cimla a Pelenna hefyd yn cael eu rhannu ar draws 2 etholaeth. Mae hyn yn cyfateb i newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r ardal bleidleisio yma yn 2021.



Fe fydd rhannau o Cimla a Pelenna yn yr etholaeth yma. Fe fydd rhannau eraill yn dod o dan etholaeth Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr.




Rydyn ni yn credu fod angen enw Cymraeg a Saesneg. Rydyn ni yn credu y byddai uno enwau'r hen etholaethau yn rhy hir.

# 9. Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr (Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:



1. Etholaeth Seneddol Aberafan Maesteg y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol y Rhondda ac Ogwr y DU.



Mae cysylltiadau ffyrdd da a chysylltiadau da eraill rhwng yr ardaloedd yma.



I gyd-fynd â'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn 2021, fe fydd rhannau o Cimla a Pelenna yn dod o dan yr etholaeth newydd yma.




Fe fydd ardaloedd Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr yn dod o dan etholaeth **Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr**.




Rydyn ni yn credu bod angen enw Cymraeg ac enw Saesneg. Fe fyddai rhoi'r ddau hen enw etholaethol at ei gilydd yn rhy hir.

# 10.Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd (Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd)



Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:

1. Etholaeth Seneddol Merthyr Tudful ac Aberdâr y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Pontypridd y DU.



Mae cysylltiadau ffyrdd da yn yr ardaloedd yma.



I gyd-fynd â newidiadau eraill sydd wedi cael eu gwneud yn 2021, fe fyddai rhannau o Bontyclun yn dod yn rhan o  etholaeth **Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth**.




Rydyn ni yn credu bod angen enw Cymraeg ac enw Saesneg.

# 11.Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerfilli (Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly)



Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:

1. Etholaeth Seneddol Blaenau Gwent a Rhymni y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Caerffili y DU.



Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng yr ardaloedd yma. Ac fe fyddai hyn yn adeiladu ar gysylltiadau sydd eisoes yn bodoli yn yr ardaloedd.



I gyd-fynd â newidiadau eraill sydd wedi cael eu gwneud yn 2021, fe fyddai Cefn Fforest yn dod yn rhan o etholaeth **Casnewydd ac Islwyn**.




Rydyn ni yn credu bod angen enw Cymraeg ac enw Saesneg.

# 12.Sir Fynwy a Thorfaen (Monmouthshire and Torfaen)



Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:

1. Etholaeth Seneddol Sir Fynwy y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Torfaen y DU.



Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau ffyrdd da a chysylltiadau da eraill rhwng yr ardaloedd yma.




Rydyn ni yn credu fod angen enw Saesneg ac enw Cymraeg.

# 13.Casnewydd ac Islwyn (Newport and Islwyn)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:




1. Etholaeth Seneddol Dwyrain Casnewydd y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Gorllewin Casnewydd ac Islwyn y DU.




Mae cysylltiadau da eisoes rhwng yr ardaloedd yma.




Rydyn ni'n credu fod angen enw Cymraeg a Saesneg, fel arall bydd yr enw yn rhy hir.

# 14.Dwyrain a Gogledd Caerdydd (Cardiff East and North)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:




1. Etholaeth Seneddol Dwyrain Caerdydd y DU,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol Gogledd y DU Caerdydd.



Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau da rhwng yr ardaloedd yma.




Rydyn ni yn credu fod angen enw Cymraeg ac enw Saesneg. Fe fyddai rhoi enwau'r hen ardaloedd at ei gilydd yn rhy hir.

# 15.Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth (Cardiff West, South and Penarth)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:



1. Etholaeth Seneddol De Caerdydd a Phenarth y DU,

   ac:


2. Etholaeth Seneddol Gorllewin Caerdydd y DU.



I gyd-fynd â newidiadau eraill sydd wedi cael eu gwneud yn 2021, fe fyddai hyn yn cynnwys rhannau o ardal Pontyclun.

# 16. Bro Morgannwg a Phen-y-bont (Vale of Glamorgan and Bridgend)

Fe fyddai hyn yn cael ei wneud o:



1. Etholaeth Seneddol Pen-y-bont ar Ogwr y DU, ac:
2. Etholaeth Seneddol Bro Morgannwg y DU.



Rydyn ni yn credu bod cysylltiadau da rhwng yr ardaloedd yma.



I gyd-fynd â newidiadau eraill sydd wedi cael eu gwneud yn 2021, fe fyddai'r Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr yn cael eu rhannu ar draws yr ardal yma ac  etholaeth **Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr**.




Fe fyddai angen i'r enwau newydd fod yn Gymraeg a Saesneg.



Rhowch eich adborth i ni drwy'r manylion cyswllt ar **dudalennau 7 a 8**.